# Tabl absenoldeb dros dro

Mae'r tabl hwn yn helpu i ddangos a nodi'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng absenoldebau dros dro o fewn Prydain Fawr, a thu allan i Brydain Fawr

| Amgylchiadau'r absenoldeb | O fewn Prydain Fawr | Tu allan i Brydain Fawr |
|---|---|---|
| Person a gedwir yn y ddalfa tra'n aros treial neu ddedfryd os yn euog, neu ei bod yn amod mechnïaeth iddo fyw mewn annedd ar wahân i'w gartref | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sydd mewn ysbyty neu sefydliad tebyg fel claf | 52 wythnos | 26 wythnos |
| Person, eu partner neu blentyn dibynnol sydd yn cael triniaeth feddygol, neu ymadfer a gymeradwywyd yn feddygol mewn llety ar wahân i lety preswyl | 52 wythnos | 26 wythnos |
| Cwrs hyfforddi | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sy'n absennol ac yn darparu gofal a gymeradwywyd yn feddygol i rywun sy'n byw ym Mhrydain Fawr neu yn rhywle arall | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sy'n gofalu am blentyn y mae ei riant neu warcheidwad yn absennol dros dro o gartref y rhiant neu warcheidwad, ac yn derbyn triniaeth feddygol neu ofal wedi ei gymeradwyo yn feddygol | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sy'n derbyn gofal a gymeradwywyd yn feddygol, ac a ddarperir mewn llety ar wahân i lety preswyl | 52 wythnos | 26 wythnos |
| Myfyriwr cymwys | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sy'n derbyn gofal mewn llety preswyl, ac nid yn aros am gyfnod prawf i weld os yw'r llety yn gweddu ei anghenion | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sydd wedi gadael eu cartref oherwydd ofn trais | 52 wythnos | 26 wythnos |
| Person sydd mewn llety preswyl am gyfnod prawf i weld a yw'n diwallu ei anghenion gyda'r bwriad o ddychwelyd adref | 52 wythnos | 4 wythnos |
| Person sy'n absennol o BF mewn cysylltiad â marwolaeth eu partner neu blentyn y mae ef neu ei bartner yn gyfrifol amdano, neu berthynas agos i'r person neu ei bartner, neu berthynas agos i blentyn neu berson ifanc y mae'r person neu'r partner yn gyfrifol amdano | 13 wythnos | 4 wythnos a 4 wythnos ychwanegol os ydi'r Cyngor yn ystyried ei bod yn afresymol i'r hawliwr ddychwelyd adref o fewn y 4 wythnos gyntaf. |
| Aelod o luoedd Ei Mawrhydi wedi ei leoli dramor | 13 wythnos | 26 wythnos |
| Llongwr | 13 wythnos | 26 wythnos |
| Gweithiwr silff gyfandirol | 13 wythnos | 26 wythnos |
| Unrhyw absenoldeb arall dros dro, e.e. gwyliau | 13 wythnos | 4 wythnos |